



Ein cyf/Our ref OQ58233

Siân Gwenllian AS
Sian.gwenllian@senedd.wales

5 Gorffennaf 2022

Annwyl Siân,

Rwy'n ateb eich cwestiwn atodol, yn dilyn fy nghwestiynau llafar a atebwyd ar 22 Mehefin 2022 ynghylch y polisi *Mwy na Geiriau*.

Yn gyntaf, hoffwn wneud sylw ar y gweithgareddau presennol yn y Gogledd. Ar hyn o bryd mae 15% o'r 60 o fyfyrwyr sydd ar y rhaglen feddygaeth C21 Gogledd Cymru yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae cyrsiau Cymraeg ar gael i bob myfyriwr gan gynnwys ymyriadau i fagu hyder ymhlith myfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf. Mae cwrs Prifysgol Caerdydd wedi cynyddu nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith flwyddyn ar ôl blwyddyn drwy ymgyrch farchnata a recriwtio weithgar. Yn olaf, mae Cwrs Meddygol Israddedig Prifysgol Caerdydd wedi sefydlu polisi derbyn cyd-destunol sy'n cydnabod y Gymraeg fel prif ystyriaeth.

Isod, rwyf wedi amlinellu'r Twf mewn Cyfranogiad Cyfrwng Cymraeg yr ydym yn ei dargedu:

- Fel rhan o Raglen C21 Gogledd Cymru, mae Prifysgol Caerdydd yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i nodi arferion gorau i recriwtio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith – gallai hyn fod ar ffurf cefnogaeth i fyfyrwyr drwy'r broses ymgeisio neu weithio gydag Ysgolion Cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo'r llwybr meddygaeth.
- Mae Prifysgol Bangor yn gweithio'n frwd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a recriwtio wrth iddynt geisio dylunio a gweithredu'r ddarpariaeth newydd.
- Mae Prifysgol Bangor hefyd yn datblygu polisi derbyn cyd-destunol fel y gallwn wneud ein gorau i gadw'r myfyrwyr disgleiriaf o Gymru yng Nghymru ac yn y Gogledd yn arbennig. Mae Bangor hefyd yn cydweithio â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar dderbyniadau cyd-destunol y mae'r Gymraeg yn ystyriaeth graidd iddynt.
- Mae Prifysgol Bangor, yn ei drafodaethau â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), wedi rhoi sylw i'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wrth hyfforddi myfyrwyr ac mae'r GMC yn cefnogi cyfleoedd o'r fath.
- Mae Prifysgolion Bangor a Chaerdydd yn cyd-drafod gofynion rheoliadol y Gymraeg gyda'r GMC yng Nghymru.
- Hyfforddi myfyrwyr Cymraeg gyda'r nod o wneud y mwyaf o'r cyfle iddynt weithio yng Nghymru, fel y gall y myfyrwyr hynny sy'n dymuno aros yn y Gogledd wneud hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae Prifysgol Bangor wedi cael cyllid gan y Coleg Cymraeg i ddarparu hyfforddiant rhyngbroffesiynol i'r holl fyfyrwyr ar y rhaglen *Mwy na Geiriau*. Mae Theatr Bara Caws yn cydweithio â Bangor i ddarparu deunyddiau/ senarios ar gyfer y gwaith hwn.
- Mae myfyriwr yn y Gogledd ar hyn o bryd yn astudio Cydran a Ddewiswyd gan Fyfyriwr sy'n canolbwyntio ar ehangu cyfranogiad yn y Gymraeg ac adlewyrchu ymgysylltiad uniongyrchol myfyrwyr â'r mater hwn ochr yn ochr â'r Prifysgolion.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu cynllun pum mlynedd ar gyfer y rhaglen *Mwy na Geiriau* bellach wedi cwblhau ei waith a bydd y cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf. Isod, mae crynodeb o'r themâu arfaethedig ar gyfer y cynllun:

Thema Drosfwaol – Diwylliant ac Arweinyddiaeth

Drwy gydol ei drafodaethau mae'r grŵp wedi gweld arweinyddiaeth yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus *Mwy na Geiriau* yn y dyfodol. Cynigir arweinyddiaeth effeithiol a chryf fel thema drosfwaol ar gyfer cynllun y dyfodol i ategu nifer o'r camau gweithredu eraill sydd eu hangen i wella'r ddarpariaeth Gymraeg. Rhoddir ystyriaeth i ymwreiddio *Llais y Gymraeg* lle bo'n briodol a diwylliant o falchder o weithio mewn cenedl ddwyieithog a bod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom.

Thema 1 – Cynllunio a pholisïau'r Iaith Gymraeg

Mae data perthnasol ac amserol yn hanfodol ar gyfer cynllunio gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol, er mwyn nodi problemau ac olrhain cynnydd. Bydd pwyslais yn y cynllun newydd ar yr angen i sicrhau bod data ar sgiliau Cymraeg pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal a phryd y mae'r "cynnig rhagweithiol" o wasanaethau Cymraeg wedi'i gynnig a'i ddarparu, yn cael ei gofnodi'n gyson.

Thema 2 – Cefnogi a Datblygu Sgiliau Cymraeg y Gweithlu

Mae cryfhau sgiliau Cymraeg y gweithlu yn hanfodol i gyflawni a gwella gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac er mwyn gwneud y Cynnig Rhagweithiol. O ran sefydliadau sydd wedi datblygu strategaethau sgiliau dwyieithog – er eu bod yn uchelgeisiol ar bapur, nid ydynt bob amser yn cynnwys cynlluniau manwl ynglŷn â sut i roi'r dyheadau hyn ar waith. Mae trafodaethau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi canolbwyntio ar gamau gweithredu i gefnogi gweithlu heddiw a chynllunio ar gyfer gweithlu yfory. Bydd y cynllun yn cyd-fynd â'r nodau a nodir yn y strategaeth gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda'r nod o gynyddu capasiti Cymraeg ar draws y gweithlu i ddiwallu anghenion ieithyddol unigolion.

Thema 3 – Rhannu arferion da a datblygu dull galluogi

Mae nifer o enghreifftiau o arferion da sy'n cael eu rhannu ar draws y maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ond nid ydynt bob amser yn cael eu lledaenu'n eang a phan rennir arferion da nid yw rheolwyr / ymarferwyr bob amser yn deall sut y gellir gweithredu'r enghreifftiau hyn yn ehangach. Bydd y cynllun *Mwy na Geiriau* newydd yn canolbwyntio ar ei rôl fel galluogwr, gan gefnogi'r sector i weithredu nodau strategol y fframwaith, darparu arweinyddiaeth ymarferol i'r sector ac amlygu enghreifftiau o arferion da.

Yn gywir,



JEREMY MILES AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language